Jona: wythfed ganrif cc

Y proffwyd ym mol y morfil

Anufudd-dod / ymddiriedaeth

Pan fydd mam neu dad yn dweud bod rhaid gwneud rhywbeth, beth fyddwch chi yn ei wneud? Gwneud yn hollol groes! Mae'n amser gwely. Na, dydw i ddim eisiau mynd i'r gwely. Mae'r stori hon yn sôn am ddyn a wnaeth yn hollol groes i'r hyn roedd Duw eisiau iddo fo ei wneud.

Un diwrnod dywedodd Duw wrth y proffwyd Jona, "Rwyf eisiau i ti fynd i ddinas Ninefe. Mae'n ddinas fawr. Rwyf am i ti ddweud wrthyn nhw am newid eu ffyrdd a byw yn dda."

Roedd pobl Ninefe yn elynion i Dduw. Roedd Jona am i Dduw eu lladd. Doedd ef ddim eisiau mynd i ddinas Ninefe.

"Yr unig beth fydd yn digwydd," meddai Jona wrtho'i hun, "fe fydd y bobl yn dweud bod yn ddrwg ganddyn nhw ac yna bydd Duw yn maddau iddyn nhw. Dydw i ddim eisiau mynd i Ninefe."

Felly, aeth Jona i'r cyfeiriad arall. Aeth cyn belled ag y medrai o Ninefe. Aeth i lan y môr. Yno roedd llong yn barod i hwylio. Hwyliodd y llong ar y môr. Roedd Jona'n teimlo'n hapusach. Doedd Duw ddim wedi siarad efo fo ers amser. Efallai bod Duw wedi anghofio amdano! Ac yn sicr, doedd o ddim yn mynd i Ninefe.

Cododd storm enbyd. Roedd ar y morwyr i gyd ofn. Aeth Jona i gysgu ar waelod y llong, "Mi fydd y storm wedi tawelu pan wna i ddeffro," meddai.

Roedd capten y llong yn flin efo Jona. Aeth i ddeffro Jona a gofyn iddo pam roedd yn cysgu. "Pam na wnei di weddïo ar Dduw i'th helpu?"

"Arna i mae'r bai i gyd. Y fi sydd wedi gwrthod gwrando ar Dduw. Os taflwch fi dros ochr y llong i'r môr, efallai y bydd y storm yn tawelu," sibrydodd Jona wrth y capten.

Y munud hwnnw, ar ôl taflu Jona i'r môr, fe dawelodd y storm. Roedd y capten a'r criw wedi synnu. Meddai'r capten wrth y criw,

"Mae'n rhaid bod gan Jona Dduw arbennig iawn. Mae hyd yn oed y storm wedi gwrando ar ei lais." Roedd rhai o griw'r llong yn dal mewn ofn.

Ar ôl i Jona gael ei daflu i'r môr, daeth pysgodyn mawr a'i lyncu'n fyw. Roedd ar Jona ofn ym mol y pysgodyn. Roedd hi'n wlyb ac yn dywyll yno.

Dechreuodd Jona weddïo ym mol y pysgodyn mawr, “O Dduw,” meddai, “rwyf yn gwybod fy mod wedi bod yn ddyn ffôl. Doeddwn i ddim eisiau mynd i Ninefe. Doeddwn i ddim eisiau gwrando arna ti.”

Ar ôl tri diwrnod, dyma’r pysgodyn yn poeri Jona ar draeth o dywod braf.

“Yn awr,” meddai Duw, “paid â bod yn wirion. Dos i Ninefe fel y dywedais wrthyt yn y lle cyntaf.”

Ufuddhaodd Jona.

Ar ôl cyrraedd Ninefe, dywedodd Jona wrth bobl y ddinas fod Duw yn ddig iawn wrthyn nhw. “Os na fyddwch chi’n ufuddhau, yna bydd Duw yn troi arnoch.”

Gwrandawodd y bobl ar y proffwyd. Felly doedd dim rhaid i Dduw ddisgyblu’r bobl. Eisteddodd Jona ar gwr y ddinas a phwdu. Roedd hi’n chwilboeth a chododd Duw goeden i roi cysgod i Jona. Erbyn y bore, roedd y goeden wedi marw. Doedd yna ddim cysgod i Jona wedyn.

“Pam wyt ti’n pwdu unwaith eto?” gofynnodd Duw.

“Rwy’n flin am fod y goeden wedi marw,” atebodd Jona.

Meddai Duw wrtho, “Fi wnaeth y goeden ac rwyt ti wedi pwdu am ei bod hi wedi marw. Fi wnaeth bobl Ninefe hefyd. Os wyt ti yn teimlo’n ddig am fod y goeden wedi marw, wyt ti’n meddwl y dylwn innau fod yn drist am fy mhobl? Maen nhw’n fyw ac fe ddylet ti fod yn hapus, Jona.”

“Gelwais ar yr Arglwydd yn fy nghyfyngder, ac atebodd fi.”

Jona 2:2

O Dduw, os gweli’n dda,
paid â gadael i mi gael fy ffordd fy hun
bob tro.
Amen.

Pam oedd Jona’n gwrthod gwrando ar Dduw?